ETHOLIAD – ELECTION

CYNGOR SIR CAERFYRDDIN
CARMARTHENSHIRE COUNTY COUNCIL

IAU MAI 1af / THURSDAY MAY 1st 2008 / 7am - 10pm

GWEITHIO GYDA A THROS BOBL LEOL
RHOI EIN CYMUNEDAU YN GYNTAF

WORKING FOR AND WITH LOCAL PEOPLE
PUTTING OUR COMMUNITY FIRST

LINDA EVANS X

Eich ymgeisydd lleol / Your Local Candidate

Plaid
PLAID CYMRU

PLAID CYMRU
THE PARTY OF WALES

www.plaidsirgar.org

Linda Evans, Ceunant, Llanllwni, SA40 9SQ - 01570 481098 - lindatwf@btinternet.com

CYFARCHION YR YMGEISYDD

Braint o'r mwyaf yw cael cyflwyno fy hun fel ymgeisydd Plaid Cymru ar Gyngor Sir Caerfyrddin i weithio dros Gymuned Llanfihangel ar Arth.

Cefais fy magu ar fferm ac wedi ymgartrefi ym Mhencader a Llanllwni ers priodi yn 1983. Rwyn briod ag Emrys sy'n enedigol o Lanllwni, ac yn fam i ddau o bobl ifanc y cylch sef Heulwen a Gareth. Yn ystod y 25 mlynedd rwyf wedi byw yma rwyf wedi ymdaflu fy hun i weithgarwch cymunedol

Tra'n magu'r plant ym Mhencader bûm yn un o gyd-Arweinyddion Cylch Meithrin y pentref ac yn gyrru bysiau i gwmni y Brodyr Davies, Pencader (Linda Blossom). Yn ddiweddarach bûm yn gweithio fel cynorthwy-ydd dosbarth yn Ysgol New Inn, a bellach rwy'n Swyddog Maes TWF - prosiect anogaeth i gyflwyno dwyieithrwydd ar yr aelwyd.

Dros y blynyddoedd bûm yn aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol New Inn a Phencader, yn aelod o Gorff Llywodraethol Ysgol Eglwys Llanllwni ac yn aelod o Glwb Gwawr Llanllwni a Chapel Nonni Llanllwni. Trwy fy ngwaith gyda TWF rwyf wedi cyd weithio ar sawl achlysur gyda rhieni Canolfan Deulu Pencader.

Wrth fod yn glerc Cyngor Bro Llanllwni dros y flwyddyn ddiwethaf cefais brofiad ac ymdeimlad o'r gwaith lleol ac o ddelio gyda gwahanol adrannau o fewn y Cyngor Sir.

Ar 1 Mai 2008 fe gewch y cyfle i ethol unigolyn sydd yn adnabod yr ardal ac yn barod i gynrychioli'r gymuned. Rwy'n hyderus bod y profiadau rwyf wedi eu cael dros y blynyddoedd wedi rhoi dealltwriaeth i mi o ofynion pobl leol o bob oedran. Fel un ohonoch rwyn cynnig fy hun i wasanaethu pawb yn yr ardal yn ôl eu hangen. Rwyn barod i wynebu'r her gan addo y gwnaf ymgymryd â'm dyletswyddau dros y gornel hon o Sir Gâr hyd eithaf fy ngallu.

Fy nod yw gweithio gyda phobl – dros y bobl!

Yn ddiffuant,

Linda

Linda Evans

"Mae'n bleser gen i gefnogi ymgyrch merch mor deilwng a brwdfrydig. Rwy'n ffyddiog y bydd yn gaffaeliad ac yn ddi-wyro yn ei gweledigaeth i wasanaethu'r gymuned."

Fioled Jones

Linda Evans, Ceunant, Llanllwni, SA40 9SQ - 01570 481098 - lindatwf@btinternet.com

MESSAGE FROM THE CANDIDATE

It is a great honour to introduce myself as the Plaid Cymru candidate on Carmarthenshire County Council to work for the Llanfihangel –ar- Arth community.

I was brought up on a farm and have settled in Pencader and Llanllwni since getting married in 1983. I am married to Emrys, a native of Llanllwni, and mother to two young members of the community, Heulwen and Gareth. During the 25 years I have lived here I have become fully immersed in community activity.

Whilst bringing up the children at Pencader I was one of the joint Leaders of the village Cylch Meithrin and was a bus driver for Davies Brothers, Pencader (Linda Blossom). More recently I worked as a classroom assistant at Ysgol New Inn, and am now employed as a Field Officer for TWF – a project that seeks to encourage parents to bring up their children bilingually.

Over the years I have been a member of the Governing Body of Ysgol New Inn and Pencader, a member of the Governing Body of Llanllwni Church School and a member of Clwb Gwawr Llanllwni and Capel Nonni Llanllwni. Through my work with TWF I have worked on a number of occasions with parents at Pencader Family Centre.

During my time as Clerk of Llanllwni Community Council over the past year, I have gained experience and a sense of local issues and of dealing with various departments within the County Council.

On 1 May 2008 you will have the opportunity to elect an individual who knows the area and who is willing to represent the community. I am confident that the experience I have gained over the years has given me an understanding of the issues facing local people of all ages. As one of you I offer myself to serve all members of the community according to their needs. I am willing to face up to the challenge and promise to undertake my duties on behalf of this corner of Carmarthenshire to the best of my ability.

My aim is to work with people – for the people!

Yours sincerely,

Linda

Linda Evans

"It is my pleasure to support the campaign of such a worthy and enthusiastic candidate. I am confident that she will be a huge asset and will not be deflected from her vision to serve the community".

Fioled Jones

Linda Evans, Ceunant, Llanllwni, SA40 9SQ - 01570 481098 - lindatwf@btinternet.com

Y Cyngor Sir – Methiant y Blaid Annibynnol

Dros y 4 blynedd ddiwethaf y blaid Annibynnol sydd wedi bod yn rhedeg y Cyngor Sir gyda'r blaid Lafur, ond mae Plaid Cymru wedi gweithi'n galed fel tîm i wneud gwahaniaeth. Trwy ymdrechion cynghorwyr Plaid Cymru llwyddwyd i gael cynghorwyr Llafur ac Annibynnol i gytuno i leihau y cynnydd a gytunwyd yn nhreth y cyngor o 4.52% i 3.95%

Failure of the Independent controlled County Council

Over the last 4 years the Council has been run by the Independents in coalition with Labour, but the Plaid Cymru team have made a difference on many occasions e.g.
through the efforts of Plaid Cymru councillors Labour and Independent councillors agreed to cut the proposed increase in the council tax from 4.52% to 3.95%

Fy mwriad yn lleol:

Ffyrdd
- Cynnal a gwella ansawdd a diogelwch ffyrdd yn arbennig trwy'r pentrefi.

Addysg
- Cryfhau a chefnogi'r ddwy ysgol sydd yn yr ardal sef Cae'r Felin a Llanllwni.

Gwsanaethau Cymdeithasol
- Diogelu cartrefi henoed yr ardal.
- Sicrhau cymorth priodol i bawb sydd ei angen yn eu cartrefi eu hunain
- Cefnogi gwirfoddolwyr trwy helpu sefydlu clwb cinio a chryfhau gwasanaeth pryd ar glud

Tai/Cynllunio
- Mae tua 6000 o bobl ar restr aros am dai yn y sir. Oherwydd prinder tai ar gyfer teuluoedd ifanc byddaf yn hybu tai fforddiadwy o safon uchel fel bod pobl leol yn medru aros yn y gymuned trwy gynlluniau megis cynllun "cymorth prynu" gyda chymdeithas tai Cantref
- Datblygu polisi "angen lleol" cryfach o fewn cynllunio.

Datblygiad Economaidd
- Cefnogi busnesau bach
- Annog creu busnesau yn yr ardal a thrwy hynny'n creu mwy o gyfleoedd i bobl leol.

Gwasanaethau Ieuenctid
- Cefnogi a hyrwyddo pob mudiad ar gyfer yr ifanc e.e Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin, Clybiau ar ôl ysgol, Yr Urdd, Ffermwyr Ifanc a.y.y.b
- Gyda'r Blaid mewn grym yn y Sir byddent yn sicrhau cyllid digonol i drefnu gweithgareddau ieuenctid yn effeithiol.

My local priorities:

Roads
- Maintain and improve road quality and safety, particularly so through our villages

Education
- Strengthen and support both schools in the ward, Cae'r Felin and Llanllwni.

Social Services
- Safeguard the homes for the elderly in the area
- Secure appropriate support for all who need it, in their own homes
- Support volunteers by helping to establish a lunch club and strengthen the meals on wheels service.

Housing/Planning
- There are some 6000 people on the housing waiting list in the county. Because of the shortage of housing for young families, I shall promote high quality affordable housing so that local people can stay in the community through schemes such as the "Homebuy scheme" run by Cantref Housing Association
- Develop a stronger "local needs" policy within planning.

Economic Development
- Support small businesses
- Encourage business start-ups in the area, leading to more opportunities for local people.

Youth Services
- Support and promote every youth organisation e.g. Cylchoedd Ti a Fi, Cylchoedd Meithrin, after school clubs, Yr Urdd, Young Farmers etc
- If Plaid were to gain power on the County Council they would secure sufficient funding to organise effective youth activities.

LINDA EVANS – PLAID CYMRU X

Hyrwyddwyd gan: Meinir Ffransis, Dolwerdd, Ilanfihangel ar Arth, SA39 9JU. Ar ran: Linda Evans, Ceunant, Llanllwni, SA40 9SQ - 01570 481098
Promoted by: Meinir Ffransis, Dolwerdd, Ilanfihangel ar Arth, SA39 9JU. On behalf of: Linda Evans, Ceunant, Llanllwni, SA40 9SQ - 01570 481098